# BANNAU BRYCHEINIOG

Rhwng y Taf a'r Wysg, dyma'r ardal wreiddiol gyda'r enw Bannau Brycheiniog. Mae'r copaon uchel, y cefnenau hir a'u hwyluswyd yn gwneud y mynyddoedd yn boblogaidd gyda cherddwyr yn y Parc Cenedlaethol; ond mae yna fannau distaw os oes angen. Mae'r gwahaniaeth rhwng y dyffrynnoedd amaethyddol i'r Gogledd a'r bryniau'r De gyda'u hoel diwydiannol yn syfrdanol.

*'Artures Hille is iii. good Walsche (almost v. Englisch) miles south west from Brekenok, and in the veri toppe of the hille is a faire wellespring. This hille of summe is countid the hiest hille of Wales, and in a veri cleere day a manne may se from hit a part of Malvern Hilles, and Glocestre, and Bristow, and part of Devenshir and Cornwale. Ther [be] other diverse hilles by Artures Hille, the wich, with hit, be communely caullid Banne Brekeninuc.* (1536-9) Leland

## Pen y Fan 886m SO 013216

Mae *pen* 'copa' + *y* + *ban* 'pigyn, pwynt, mynydd' yn ei ffurf dreigliedig yn enw digon syml i'w ddehongli; hefyd, yn gysylltiedig â Chernyweg *ban* 'uchder', Gwyddeleg *binn*, *benn* 'copa, penrhyn. Fe geir Y Fan a The Vann ar fap Bowen 1729 a Pen-y-van 1830 AO. Un hen enw ar y mynydd oedd Cader Arthur neu Cadair Arthur [nodwch bo sawl  enw Arthur's Seat ac ymlaen ym Mrhydain]. Ond un hen enw a ddefnyddiwyd oedd Cader neu Gadair Arthur, ond fe gyfeiriwyd at y mynydd fel Caer Arthur gan Giraldus Cambrensis (Gerallt Cymro) yn y 12fed Ganrif, gyda'r sillafiad *kaer* 'caer'. Yr oedd *kaer, kair* yn sillafiadau cyffredin ar un adeg [e.e. kairdif i ddynodi Caerdydd].

Yn yr Itinerarium gan Giraldus, fe welir: *'….. quorum principalis Kaerarthur dictus, id est, cathedra Arthuri, propter gemina promontorii cacumina in cathedra modum se preferentia …..'* (yr uchaf yw Caer Arthur, neu 'sedd' Arthur, oherwydd dau gopa penrhyn, yn dangos ffurf y sedd). Dim ond yn yr ail rhan o'r disgrifiad mae Giraldus yn cyfeirio at *cadair* 'sedd'. Yr oedd Giraldus yn gyfarwydd a'r ardal a nid camgymeriad oedd y defnydd o *Kaerarthur.*

A'i hyn oedd y cyfnod pryd y dechreuid y cymysgiad(?) rhwng y gair *cadair* a **cader* 'caer'. Mai'n ymddangos y bod Giraldus wedi drysu braidd yn ei ymgais i roi esboniad i'r enw; oherwydd nid yw'n sôn am yr elfen *kaer* 'caer'. Hyd yn oed yn y geiriadur Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb (1804) Thomas Jones, fe roedd: Cader (Castel) diffynfa. A strong or fortified place.

Cofnododd Lewis Glyn Cothi 1420-90 yr un hen enw fel Ban Uwch Deni; ac yn hwyrach eto fe welir ffurf debyg *'ym mlaenau Cwm Llwch wrth droed Bannuwchdeni'* yng ngwaith Sion Dafydd Rhys 1534-1609. Enwau sydd yn dangos yr elfennau *ban* 'copa' + *uwch* 'uwchben' + *deni (?),* ….. sef elfen dywyll iawn. Ond, fe welir bo'r elfen -deni yn debyg i'r elfen olaf yn y ffurfiau a welir ar y mapiau cynnar. Fe geir Monythdenne, Monuchdennye hil a Monughdenny hill 1578 Saxton, Monuchdeiny Hill 1610 Speed, Monuchdeny Hill 1729 Bowen.

Llygriad y gair mynydd yw'r monyth, monuch, tra bo'r elfennau -*deni*, -*denny* yn debygol o godi o'r term Brythoneg **dinn*, Cymraeg *din, dinas* sy'n gysylltiedig â'r Wyddeleg Canol *dinn* genidol *denna* 'amddiffynfa, uchder'. Yn y Gwyddeleg mae dinn, denna yn cael ei seisnigeiddio yn aml i -denny, -dinnie neu dinny. Mae'r saesnigeiddio i'w weld yn yr Alban hefyd, fel yn Dunnicaer & Auchindinny, Swydd Aberdeen; Baldinnie, Fife. Os nad yw'r term yn cyfeirio at y copa, ond yn cyfeirio at amddiffynfa, mae sawl caer yn agos at y mynydd. Mae yna awgrymiad mai camgymeriad trawsysgrifol o'r ffurf Benni, neu'r Fenni sydd; neu, hyd yn oed ffurf llygredig lleol y gair *tenau* 'cul'.

## Corn Du 873m SO 008213

*Corn* 'pig, pigfain', cysylltiedig â Chernyweg a Llydaweg *corno* 'corn' Hen Gymraeg *corno*- 'corn', tebygrwydd i gorn anifail, corn yfed; neu, mewn termau topograffig cyffredinol unrhyw nodwedd ffurf pigog neu ffurf gonigol. Yn ddiweddarach, defnyddiwyd y cyrn amrywiad Cymraeg Canol i

Mynyddoedd.co.uk

ddynodi siapiau bryn conigol neu byramidaidd. Unwaith eto enw topograffigol sydd wedi codi oherwydd effaith agwedd ar y mynydd; sef tywyllwch y cysgod, sydd yn debygol o barhau trwy'r dydd. Felly, mae'r corn yn edrych yn dywyll iawn; oherwydd hyn fe roddwyd yr ansoddair du arno. Y Fan-corn-du AO 1832. I ddechrau, copaon dwbl Pen y Fan a'r brig, a welir o Aberhonddu, a arweiniodd at yr enw Bannau Brycheiniog yn y lle cyntaf yn hytrach na'r ystod ehangach.

**Cribyn 795m SO 024213**
Bachigyn ar y gair *crib* 'cefnen' yw cribyn, mae yn fyrrach mewn cymhariaeth i Gefn Cyff a Chefn Cwm Llwch naill ochr ar llall. Wedi ei gofnodi fel Y Gribyn AO 1833.

**Y Waun Rudd 769m SO 062206**
Wedi ei ysgrifennu fel Waun Rydd; mae'r rhan gychwynnol yr enw Waun Rudd yn adlewyrchu natur eithaf gwastad y mynydd. Y gair *gwaun* 'tir gwastad uchel a gwlyb, rhostir agored'. Fel arfer, nid yw Hen Gymraeg *gouon*, Hen Gernyweg *guen*, Llydaweg *gueun* 'marsh', yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y copa. Mae ail ran yr enw yn adlewyrchu'r lliwiad cyffredinol; rhudd 'coch, brown', Hen Gymraeg *rud* 'coch, llwydgoch'. Mae yna enw arall gerllaw, sef Carn Pica.

Mae'r enw Carn Pica yn rhoi mwy o bwyslais tuag at y brig, ac yn ddisgrifydd o ffurf letem y mynydd o'r dwyrain. Er y gellir defnyddio'r gair *carn* 'carnedd, crug, bol neu dwmpath' yn enwau bryniau a mynyddoedd lle mae (neu efallai fod) pentwr o gerrig garw wedi'u pentyrru i ffurfio twmpath claddu cyn-Gristnogol mae'n debygol nad yw hyn yn gywir, gan fod yr hyn sy'n cynnwys carneddau yn gymharol fodern. *Pica* 'pig bychan', bachigyn yr Hen Saesneg *pic* 'pike, spike, peak'.

**Y Fan Las 754m SO 055204**
Bwlch y Ddwyallt yw'r unrhyw enw ar gyfyl y mynydd ar fapiau'r AO heddiw; ond, Y Fan Las oedd yr unig enw ar fapiau cynnar yr Arolwg. Gwelir yr enw, yn gudd braidd fel Y Graig Fan Las, yn (SO 053197). Gall yr elfen (g)las gyfeirio at y mannau cysgodol, yn hytrach na glas 'llwydwyrdd' y llystyfiant.

**Cefn Cul 742m SO 014194**
Enw topgraffigol ardderchog ar y mynydd, mae cefnen gul dros ben yn cysylltu'r mynydd gyda Chorn Du.

**Tor Glas 730m SO 041196**
Yr enw a roddir ar y mynydd ar fap AO 1832, mae'r enw bellach gryn bellter i lawr y bryn. Synnwyr gwraidd Brythoneg **torra* 'chwydd, ymestyniad', Hen Gymraeg *torr* 'bol, stumog'; wedi cael ei gynnal mewn Llydaweg *teur, tor*, Cernyweg *tor* a Chymraeg tor 'bol, stumog'. Fodd bynnag, mae'n debyg bod ei ddefnydd fel disgrifydd topograffig ar gyfer 'tomen o greigiau' a 'bryncyn' yn ddatblygiad diweddarach. Mae'r ail elfen, glas yn cyfeirio at y lliw llwydwyrdd.Tor Glase 1816, Tor-glâs AO 1836.

**Fan y Big 719m SO 036206**
Ban 'copa pigfain' + y + big – ffurf dreigliedig y gair pig 'pigyn, pwynt'; neu, 'gulfin aderyn'. Mae'r gair pig, benthyciad o'r Hen Saesneg pic 'pike, spear' yn rhoi synnwyr o gopa ffurf gaing neu letem; neu, un gyda charn arno. Hefyd, rhaid nodi, yn agos at y copa, bo'r creigiau tywodfaen yn ymestyn allan i ffurfio pig neu 'gulfin aderyn'.

**Allt Lwyd 654m SO 079189**
Enw'r ysbardun sy'n ymestyn i lawr o Waun Rydd. *Allt* 'uchder, clogwyn, llethr serth', Cernyweg *alls*, Hen Gymraeg *alt*, + *llwyd* 'llwydwyn' yn gysylltiedig â Hen Gernyweg *luit*, Hen Lydaweg *loit.* Ni ellir disgwyl i enwau lliw yn y dirwedd fod yn gyson yn eu cymhwysiad. Er enghraifft, mae newidiadau golau oherwydd amser o'r dydd, pellter, amser o'r flwyddyn a chysgod i gyd yn effeithio

Mynyddoedd.co.uk

ar y lliwiau a welir.

**Twyn Mwyalchod 642m SO 022176**
Nid oes copa nodedig, llechweddi graddol sydd yn ymestyn i fynnu tuag at y pwynt triongli a dyma'r enw agosâ. Unigol y mwyalchod yw *mwyalchen* 'aderyn du', Hen Gernyweg *mowlh*, Llydaweg *moualch* o'r Frythoneg **mesalka* 'aderyn du'. Hefyd, tybed os oedd aderyn y mynyddoedd Mwyalchen y Graig: *Turdus torquatus* yn yr ardal.

**Y Gyrn 619m SN 989216**
*Curn, cyrn* 'pentwr, crug; côn; mwdwl: yn aml yn cael ei gymysgu gyda lluosog y gair *corn* 'pen mynydd, pig', fe welir bod y mynydd yn edrych yn gonigol o'r De. Gyda'r fannod y ar flaen enw'r mynydd mae'r enw yn ei wneud yn arbennig i'r boblogaeth leol. Wedi ei gofnodi fel Green Hill ar fap Greenwood 1828.

**Y Garn Felen 617m SO 087137**
*Felen* yw'r ffurf fenywaidd ar y gair *melyn* 'melyn afiach, gwelw, brown'. Ceir sawl carn yn agos i'r copa, ond yr enw arall oedd yn yr ardal ar fap 1832 yr AO oedd Carn y Bugail.

**Twynau Gwynion 570m SO 0812**
*Twynau* 'crug, tomen, twmpath' + *gwynion* – ffurf lluosogol y gair gwyn. Calchfaen yw creigiau'r ardal ac felly mae'r creigiau yn edrych yn wyn iawn, i gymharu a gweddill y tirwedd. Ar un adeg Cefn Hir oedd yr enw i'r ar y bryniau ac i'r Dwyrain uwch Ddyffryn Crawnon hefyd; mae'r enw wedi diflannu oddi ar y mapiau.

**Yr Allt 565m SO 056162**
Wedi ei nodi fel Corlan yr Allt gan rai; *corlan* ' defeity, ffald' + *allt* 'llechwedd, llechwedd coediog, clogwyn, codiad'.

**Bryn 562m SO 072227**
Enw disgrifiadol ar fryn amlwg ar ddiwedd gefnen hir yn ymestyn i lawr o Waun Rydd. Gair hynafol yw *bryn* 'mynydd-dir', ceir Hen Wyddeleg *bruinne* 'bron', o'r Indo Ewropeaidd **bhreus*; 'codiad tir, bron, mynydd bach'. Wrth edrych ar fapiau'r AO cynnar fe welir mai Bryn oedd yr unig enw hyd yn y cyfnod cyn 1832, cyfnod yr arolwg cyntaf; cofnodwyd Cefn y Bryn a Phen y Bryn hefyd.

**Y Garn Fawr 557m SO 123151**
*Carn* 'carnedd' + *mawr* 'eang', ond mae'r carn ar y copa wedi ei chwalu'n llwyr, ond fe roedd yn un eang ar un adeg. I'r Dwyrain, ceir ogof ddiddorol i speleolegwyr yn agos at y copa, a elwir yn Ogof Fawr; fodd bynnag, yr hen enw oedd Tylles Fawr, tylles 'ffau, gwal'. Fe'i gelwir hefyd yn Ogof y Siartiwr pan ym 1839, fe wnaeth y Siartwyr bentyrru arfau ym mynedfa'r ogof cyn eu gorymdaith i Gasnewydd.

**Trefil Ddu 557m SO 104141**
Hwn oedd enw'r bryn ar fap cynnar yr AO a Greenwood 1831, erbyn heddiw mae'r enw dros 1km i ffwrdd, yn (SO 114132). Enw sydd wedi gweld sawl yn cynnig esboniadau. *Tir* 'ardal' + *foel* 'llwm, bryn' + *du* 'tywyll', ac yn wrthgyferbyniol i'r Tir Foel Las. Fe gynigwyd hefyd yr esboniadau: *tref* 'anheddfan' + *mil* 'anifeiliaid'; a, *tref* 'anheddfan' + enw personol fel Eiliw? Yn hwyrach, os nad oedd cysylltiad â'r elfen tref, oedd llygriad o air fel trwfwl, *tryfwl* 'pentwr, swp' yno; neu, llygriad *tryfal* 'triongl', i ddynodi fforch afonig. Yn y Badminton Deeds gwelir Trevelde 1646, Truvill 1704, Trevill 1766 a Trevil Du 1807; ond i Theophilus Jones 1805 Tir voel ddu.

**Blorens 555m SO 273121**

Mynyddoedd.co.uk

Blorens ar lafar Cymraeg heddiw, enw sydd yn anodd ei ddehongli, ond un sy'n debygol o godi o *blawr* ‘llwyd, llwydlas, gwelwlas’ [+ -*ais* 'cefnen'(?)], Gwyddeleg Canol *blar* ‘llwyd’, yn deillio o'r Celteg **blāros*. Tybed od yw'r enw yn cyfeirio at ei liw ar ben bore glas ond rhaid cofio *blawr* 'llwyd golau, gwyn' a 'cochlyd, brown' hefyd. Blorenge a roddwyd yn aml yn Saesneg fel enw’r mynydd. Bloreis 1263 Calendar of Ancient Correspondence in Wales, Bloreys 1348 cofrestrau Plwyf Conwy, Blorench Hill 1610 Speed a Blorench yn 1781, Blorenge 1832 OS.

**Twyn Ceiliog 552m SO 099129**
Gall y gair *ceiliog* 'cockerel' gyfeirio at Ceiliog Du'r Mynydd (Grouse). Ond os y term *cil* 'cornel, cilfan' + -*og* 'cysylltiad a, tueddiad i' sydd, mae yn cyfeirio at y tirwedd. Twyn Cilog 1832 AO.

**Tor y Foel 551m SO 114195**
Mae’r gair tor yn y man yn cyfeirio at fryn amlwg, weithiau wedi ei gofnodi fel Twr y Foel, *twr* 'pentwr'; hefyd Tir y Foel, ac ar fap William Rees 1933, fel Tyr y Foel.

**Allt Ddu 550m SO 027241**
Mae'n debygol bod yr enw y'n ymwneud â *allt* 'llethr, llethr coedog, clogwyn' + *du* 'tywyll'; fodd bynnag, defnyddir du 'chwerw' mewn rhai safleoedd fel disgrifydd ar dir cas neu man agored a gwyntog.

**Trefil Las 541m SO 123145**
Mae’r enw ar y bryn tua 1km i ffwrdd, yn (SO 124136); ond ar fap Greenwood, hwn oedd yr enw ar yr uwchdir. Y term *glas* ‘llwyd’ yn ei ffurf treigliedig; ond Tir voel glas oedd yr enw i Theophilus Jones 1805, gweler Trefil Ddu uchod. Y *glas* 'llwydwyrdd' neu 'llwyd' sydd yn debygol yn y man.

**Twyn Cil Rhew 540m SO 017242**
Nid yw'r twyn 'cefnen' yn fryn cywir, yn hytrach pen neu ddiwedd yr esgair sy'n ymestyn allan, i lawr tua'r gogledd o Ben y Fan. Gyda'r enw yn disgrifio safle ble mae *twyn* 'bryn, rhiw, allt' + *cil* 'encil, enciliad, congl'; Llydaweg *kil*, Cernyweg *kyl* 'encil, rhan gefn' yn cadw'r rhew 'iâ, barrug'. Killyrew 1729, Killyrhiw 1797.

**Bryniau Gleision 538m SO 084161**
*Bryniau* 'copaon' + *gleision* - lluosog y gair *glas* 'llwydwyrdd, llwyd' sydd yn y mynyddoedd. Cymharer â Chernyweg *glas*, Hen Wyddeleg *glas* 'gwyrdd, llwyd'; o'r Brythoneg **cuneglas*. Brinne Gleision 1816 Adroddiad y Comisiwn Brenhinol.

**Twyn Du 533m SO 082204**
*Twyn* 'bryncyn' bach ar y sbardun sy'n ymestyn i lawr o Waun Rydd.

**Tŵr Pen Cyrn 529m SO 203145**
Mae nifer o garneddau, pentyrrau cerrig a chylchoedd cytiau yn yr ardal o amgylch y copa; mae eu presenoldeb yn cael ei adlewyrchu yn yr enw - sef *pen* 'copa, top' + *cyrn* 'tomen, twmpath, carnedd'. Mae’n debyg nad yr elfen enw cychwynnol yw *tŵr* ‘adeiladwaith castell’ [a fenthycwyd o Saesneg Canol *tower*] ond *twr* ‘pentwr, chwydd’.

**Tormwnt 528m SO 039154**
Mae'r enw Tormwnt i'w weld ar fapiau'r AO heddiw; ond, ar y mapiau gwreiddiol mae'n bosib dod o hyd i Tor Mwnt. Rhostir eithaf gwastad yw’r brig, ond mae’r llethrau isaf yn fwy serth, felly byddai’r gair *tor* ‘pentwr’ ac nid *tor* ‘copa creigiog’ yn ddigonol. Benthycir y geiriau *mwnt* a *mwnd*, y ddau yn golygu 'domen, twmpath, bryncyn, bryn' o'r gair Saesneg *mount* ‘mynydd’ (- ei hun wedi'i fenthyg o'r Ffrengig *mont*). Wedi ei gofnodi fel Tarren Tormwnt ar adegau a Gwaun Tormwnt yn 1828 ar Fap Greenwood.

Mynyddoedd.co.uk

**Y Garn Caws 516m SO 129168**
Gall *caws* fod yn enw ar gyda bryn ffurf lletem; neu, carn ffurf lletem; ond, oes llygriad gair fel *cawsai, cawse* 'llwybr uwch corsdir, sarn' neu 'llwybr llechfaen' tybed, yn rhoi cysylltiad i lwybr hynafol. Gweler carn yr Oes Efydd yn chwâl yn agos i'r copa, a rhes o gerrig ar y llechweddau gogleddol.

**Allt Forgan 513m SO 066177**
*Allt* 'llechwedd, llechwedd coediog' + Morgan; gellid rhoi'r enw i'r tir sy'n gysylltiedig â'r person. Allt Vorgan 1639 Llawysgrif Wynnstay, Allt vorgan 1644 Llawysgrif Brondyffryn.

**Bryn Cefnog 510m SO 086159**
Disgrifiad ardderchog ar fryn sydd wedi ei ffurfio gyda nifer o gefnenau neu gopaon bychan.

**Mynydd y Garn Fawr 503m SO 270099**
Carn y Defaid yw’r carn mawr yn yr enw, a mae carnau eraill yn yr ardal. Fe weli'r y term carn fel enw ar llawer o nodweddion twmpathog hynafol yn nifer o leoliadau, a nid yn unig yng Nghymru. Mae carneddau yn yr Alban a charneddau ar fynyddoedd Iwerddon hefyd, e.e. An Carn.

**Twynau Gwynion 498m SO 067108**
Lluosog *Twyn* 'bryncyn, copa' yw'r *twynau*. Twyneu Gwynion 1832 OS.

**Twyn y Llyn 486m SO 108161**
*Twyn* 'bryncyn, pentwr, copa, top' + *llyn* 'pwll'. Oedd yna bwll yn yr ardal corsiog i'r dwyrain o'r copa?

**Y Garn Ddu 462m SO 027124**
Wrth edrych ar fapiau'r AO fe welir sawl carn yn agos at y bryn, ond mae'r carn a ddynodir fel Garn Ddu tua chilomedr i ffwrdd i'r Dwyrain, yn (SO 036126).

**Cefn Cil Sanws 461m SO 024103**
*Cefn* 'cefnen' gyda'r ystyr arferol y gair *cil* ‘congl, encil’; neu, 'lle o'r neilltu'? Ond, rhaid nodi'r ffurf Gaeleg *cil, kil* 'eglwys'. O bob tebyg, ffurf llygredig y Lladin *sanctus* 'sanctaidd' yw'r sanws; ond, dywedir rhai mai enw personol sydd. A oedd meudwy diarffordd yn yr ardal, yr oedd rhai mynachod Cristnogol cynnar yn safleoedd distaw. Fe nodwyd fel Tir Kil Sanws 1614 a Kilsaunws 1664/5 Llawysgrifau Penpont, Cilsanos 1849 Samuel Lewis.

**Twyn Croes 452m SO 038129**
*Twyn* 'bryncyn, tomen' + *croes* 'pawl ffurf croes?'. Fel y gwelir ar nifer o fryniau a bylchau gyda’r enw croes; yr oedd nod y groes yn dynodi safle ar ffin tir eglwysig. Oedd y groes yn gysylltiedig a Chil-sanws uchod?

**Bryn Melyn 441m SO 199185**
*Bryn* 'mynydd bach' + *melyn* 'eurliw'. Mewn enwau topograffigol ystyr y term melyn yw brown neu welw, yn hytrach na liw euraidd cywir.

**Twyn Wenallt 441m SO 244125**
Twyn Wenallt yw’r enw ar y hen fapiau, mae *twyn* 'bryncyn, pentwr, clawdd neu fryn' yn disgrifydd eithaf cyffredin yn y bryniau o gwmpas, wedi'i gysylltu â *(g)wen* 'gwyn' + *allt* 'llechwedd serth'. Gweler yr enw Gilwern Hill (SO 238129), fe'i enwir ar ôl y pentref islaw; hefyd, yn (SO 244125) mae yna enw Carreg Gywir; y tebygrwydd yw mai *cywir* yn y synnwyr 'manwl gywir' yn hytrach na 'pwyllog, dilys' sydd, gan ei fod yn cyfeirio at maen ffin. Twyn y Wenallt 1832 OS.

Mynyddoedd.co.uk

**Coetgae’r Gwartheg  422m SO 023115**
*Coetgae* 'lloc gwrych' + *gwartheg* 'da-byw', Cernyweg *gwarthek*. Mae'r ardal o amgylch y bryn yn dangos presenoldeb llawer o ddefnydd tir cyn-hanesydd ac un math o hwsmonaeth anifeiliaid a ddefnyddid yn yr ardaloedd anial oedd dod â da byw o borfa i lawr i'r lloc dros nos. Prysgwydd neu wrych drain yn wreiddiol, yn hwyrach cael eu gwneud yn barhaol gyda waliau a/neu fanciau'n cryfhau'r lloc. Gwelir y newid yn yr hwsmonaeth yn natblygiad ystyr y term coetgae. Yn wreiddiol, tir wedi'i amgáu â gwrych oedd y *coed* + *cae,* term a ddatblygwyd yn ddiweddarach i ddynodi unrhyw gae neu loc. Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd gwartheg i gymdeithasau amrywiol o'r oesoedd cyn-hanesyddol hyd at yr Oesoedd Canol; roedd gwartheg yn fesur o gyfoeth a statws cymdeithasol.

**Y Wenallt 356m SO 113215**
Defnyddir y term wenallt yn y tirwedd mewn rhai mannau i ddynodi *(g)wen* 'gwyn' + *allt* 'bryn, lechwedd'; llechwedd agored, tir sy’n llygad yr haul ar ben bore neu ardal sydd yn gwynebu’r de. Yn wrthgyferbyniol i'r ffurf a welir yn aml, sef Y Dduallt.

Mynyddoedd.co.uk